

Bwystfil Nain

Yn y nos, yn stafell Nain,
mi welais fwystfil milain –
neu, o leiaf, ei glywed
yn y nos fel clec grenêd
neu sain dril tu fas í'n drws,
neu seiren brontosawrws.

Drwy'r wal roedd stŵr yr aliwn
yn gwneud í'r tŷ grynu'n grwn:
roedd ei sŵn fel gordd y sêr,
yn gas fel cawod geser,
fel rhoio crac dau dractor,
fel sgrech adar mwya'r môr.

A slawer dydd mi guddiwn
rhag yr ellyll erchyll hwn,
cyn dod i wybod nad oedd
gennym ffrwydradau gannoedd,
dractor na deinosoriaid
yn y tŷ, 'mond chwyrnu Taid!